



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

Cynllun Iaith Gymraeg

Adroddiad Monitro Blynyddol 2015-2016

Lyn Williams
Ymgynghorydd Polisi Iaith

Cynnwys

	Tudalen
Cyflwyniad	3
Gweithredu'r Cynllun	3
Grŵp Pencampwyr	5
TGCh	6
Recriwtio	6
Cynllun Hyfforddiant Cymraeg	7
• Gwobrau	7
• Cynllun Mentora	8
Cydymffurfiaeth â'r Cynllun Iaith Gymraeg	8
• Gwasanaethau Rheng Flaen	8
• Rheoli a Gweithredu'r Cynllun	9
• Sgiliau Cymraeg	13
Prif-ffrydio'r Gymraeg	14
Dadansoddi Perfformiad	15
• Risgiau	15
• Blaenoriaethau'r flwyddyn nesaf	16
Cynllun Iaith Gymraeg – Dangosyddion Perfformiad	18
Cynllun Gweithredu 2015-2016 (Atodiad 1)	18
Dadansoddiad Pellach o Sgiliau Cymraeg (Atodiad 2)	20

Cyflwyniad

O dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 mae dyletswydd statudol ar sefydliadau cyhoeddus i baratoi a chyflwyno Adroddiad Blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg ar y cynnydd a wnaed wrth weithredu a chydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg sydd ar waith.

Dyma drydydd Adroddiad Monitro Blynyddol y Cynllun Iaith Gymraeg, a baratowyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru i ddangos y cynnydd a wnaed gennym o ran gweithredu ein Cynllun yn ystod blwyddyn ariannol 2015/2016, ac i nodi ein blaenoriaethau gwaith o ran y Gymraeg ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi parhau i weithredu'r Cynllun ym mhob un o'n gweithleoedd, a phrif-ffrydio'r iaith i mewn i'r busnes wrth i ni symud ymlaen â'n gweledigaeth o fod yn sefydliad naturiol dwyieithog er mwyn darparu'r gwasanaeth gorau posibl i'r cyhoedd yng Nghymru, yn ogystal â darparu amgylchedd gwaith dwyieithog ar gyfer staff. Ein nod yw rhoi gwir ddewis iaith i'n cwsmeriaid a'n staff, gan gydnabod y gall pobl fynegi'u barn a'u hanghenion yn well yn eu dewis iaith.

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi parhau i fod yn gyfnod o newidiadau mewnol wrth i'r gwaith o gyfuno swyddogaethau'r tri chorff blaenorol barhau ac wrth i ni ddatblygu'n hunaniaeth ein hunain wrth i gytundebau lefel gwasanaeth ddod i ben. Mae'r sefydliad hefyd wedi parhau â'i rhaglen ailstrwythuro a newid ac mae ystyriaethau a gofynion o ran yr iaith Gymraeg wedi bod yn rhan o'r penderfyniadau hyn.

Gweithredu'r Cynllun

Er ein bod wedi parhau i weithredu'r Cynllun a chodi ymwybyddiaeth o'i ofynion rydym hefyd wedi bod yn paratoi'r sefydliad ar gyfer y Safonau sydd i ddod, gan sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r newidiadau sydd i ddod boed hynny drwy'n sianelau cyfathrebu arferol neu mewn cyfarfodydd wyneb yn wyneb.

Cyfarfu'r Ymgynghorydd Polisi Iaith â phob un o'r Rheolwyr Canolfan Ymwelwyr a'r tenantiaid sydd yn ein Canolfannau i esbonio'r Safonau newydd a newidiadau o ran deddfwriaeth iaith Gymraeg. Mae'r cyfarfodydd wyneb yn wyneb hyn wedi bod yn werth chweil ac erbyn hyn mae gan y Rheolwyr a'r Tenantiaid gwell dealltwriaeth o'r gofynion sy'n eu hwynebu. Yn y cyfarfodydd hyn, amlygodd y tenantiaid werth hyrwyddo'r iaith i'w busnesau, o ran ychwanegu at brofiad yr ymwelydd ac wrth ymdrin â chymunedau lleol.

Amlygwyd y Cynllun yn rheolaidd yn y Cylchlythyr Misol i Reolwyr yn ystod y flwyddyn, fel a ganlyn:-

- Codi ymwybyddiaeth o'r symud o weithredu Cynlluniau Iaith Gymraeg i Safonau. Gofyn i Reolwyr sicrhau bod staff yn gyfarwydd â'r Cynllun a'r canllawiau, eu bod yn ateb y ffôn yn ddwyieithog ac yn sicrhau neges ddwyieithog ar eu ffôn a'u neges allan o'r swyddfa.
- Y broses o gael y Strategaeth Sgiliau Dwyieithog yn weithredol, ac yn tynnu sylw at yr angen i bob aelod o staff hunanasesu'i sgiliau Cymraeg.
- Nodyn atgoffa ein bod yn gweithredu Polisi Iaith Mewnol a'i ofynion.
- Nodyn atgoffa yn gofyn i staff gwblhau'r dasg hunanasesu'u sgiliau Cymraeg, ac yn egluro pam bod angen y wybodaeth.
- Tynnu sylw at ein Rhaglen Hyfforddiant Cymraeg.
- Codi ymwybyddiaeth o arolwg a gynhaliwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg o brofiad defnyddwyr gwasanaeth Cymraeg.

Amlygwyd y Cynllun ar dudalen gartref y fewnwyd ar sawl achlysur yn ystod y flwyddyn ddiwethaf:-

- Erthygl yn codi ymwybyddiaeth o'r dudalen Gymraeg newydd a sefydlwyd yn system ganolog Cyllid / Adnoddau Dynol (AD) MyNRW, i gofnodi lefelau Cymraeg y staff. Cyhoeddwyd canllaw i staff ar gofnodi'r wybodaeth hon yn y system.
- Tynnu sylw at Wobr Gweithle'r Flwyddyn a ddyfarnwyd i Cyfoeth Naturiol Cymru gan Brifysgol Caerdydd a hefyd bod aelod o staff wedi ennill Dysgwr y Flwyddyn Coleg Gwent.
- Erthygl i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi ac yn tanlinellu manteision dwyieithrwydd a'n Cynllun Mentora.
- Gofynnwyd ar y Fewnwyd am wirfoddolwyr i dreialu'r offeryn cyfieithu.

Eleni rydym wedi canolbwyntio ar brif-ffrydio'r iaith Gymraeg i mewn i'r busnes er mwyn sicrhau bod yr iaith yn rhan o'r broses benderfynu ym mhob rhan o'r busnes. Mae'r Ymgynghorydd Polisi Iaith wedi trafod y polisi a'i ofyniad gyda Rheolwyr i sicrhau bod ystyriaethau'r iaith Gymraeg yn eu lle fel bod y sefydliad mewn sefyllfa gyffyrddus, yn barod ar gyfer pan fydd y Safonau'n dod i rym.

Rhestrir enghreifftiau o'r gwaith hwn isod:

- Gweithio ar y cyd â'r Tîm Cyfieithu i sicrhau cydymffurfiaeth â'n Cynllun, gan sicrhau bod ein rhestr wirio asesu'r angen am gyfieithu'n cael ei chynnwys â phob darn o waith sydd angen ei gyfieithu er mwyn sicrhau bod yr un ystyriaeth yn cael ei roi i bob darn o waith. Os oes amheuaeth, caiff y rhestr wirio a'r gwaith eu hanfon at ein Hymgyngorydd Polisi Iaith.
- Yn dilyn archwiliad a gynhaliwyd i'n gweithdrefnau recriwtio, ysgrifennwyd canllawiau recriwtio newydd fel pecyn cymorth i reolwyr wrth recriwtio staff. Rhoddodd yr Ymgynghorydd Polisi Iaith gyngor i'r Tîm Recriwtio ar ystyriaethau'r Gymraeg wrth recriwtio a chynnal cyfweiliadau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Cynllun ac mae'r argymhellion wedi'u hymgorffori yn y pecyn cymorth.
- Y Tîm Recriwtio'n sicrhau, pan fo gofynion hyfforddiant Cymraeg yn cael eu cytuno yn y cyfweiliad, bod yr ymgeiswyr llwyddiannus yn derbyn llythyr o gytundeb sy'n cael ei arwyddo gan yr unigolyn a'i gadw ar ffeil. Mae'r Rheolwr Llinell yn gyfrifol am sicrhau bod yr hyfforddiant hwn yn digwydd, ac yn y dyfodol bydd gwiriadau archwilio'n cael eu cynnal gan yr Ymgynghorydd Polisi Iaith a'r Cydlynnydd Hyfforddiant Cymraeg.
- Derbyniodd pob aelod newydd o staff e-bost oddi wrth y Cydlynnydd Hyfforddiant Cymraeg, gyda manylion am ein Cynllun a'r canllawiau sydd ar gael. Mae unrhyw aelod newydd o staff sydd angen dysgu Cymraeg fel rhan o'u telerau ac amodau hefyd yn derbyn y ffurflen gais am Hyfforddiant Cymraeg er mwyn sicrhau bod yr hyfforddiant yn cael ei drefnu ar eu cyfer.
- Gweithio gyda'r Tîm Caffael ar Ffurflen Fonitro Rheoli Contractau ar gyfer cydymffurfiaeth o ran y Gymraeg. Bydd y ffurflenni hyn yn cael eu defnyddio gan reolwyr contractau i sicrhau cydymffurfiaeth a bydd copi'n cael ei anfon at yr Ymgynghorydd Polisi Iaith yn dilyn pob gwiriad monitro. Bydd y ffurflen hon yn cael ei lansio ledled y busnes yn ystod 2016.
- Mae nifer o raglenni meddalwedd newydd wedi'u datblygu wrth i gytundebau gwasanaeth y cyrff blaenorol ddod i ben, gydag ystyriaethau iaith Gymraeg wedi'u hymgorffori yn y penderfyniadau hyn ar bob achlysur.

Ar sawl achlysur yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gofynnwyd i gynrychiolwyr o'n sefydliad gymryd rhan a rhoi cyflwyniad mewn digwyddiadau'n egluro sut mae'r sefydliad yn gweithio ar ddatblygu gweithle dwyieithog, gan rannu arfer da gydag eraill. Dyma rai enghreifftiau o waith o'r fath: -

- Cynhaliodd ein Prif Weithredwr a Chomisiynydd y Gymraeg ddigwyddiad yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol ym Meifod ar ddefnyddio'r Gymraeg yn y Gweithle. Rhannwyd arfer da, gyda dau aelod o'n staff sydd wedi dysgu siarad Cymraeg at ddibenion gwaith yn rhannu'u profiadau o ddysgu Cymraeg, a sesiwn holi ac ateb yn dilyn y drafodaeth.

- Rhoddodd Cyfarwyddwr Cyfarwyddiaeth Gogledd a Chanolbarth Cymru gyflwyniad yng Nghynhadledd Cymraeg yn y Gweithle, Prifysgol Bangor ar y gwaith o uno tri sefydliad, a'r gwaith o ddatblygu fel sefydliad dwyieithog a chynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael i'n staff weithio'n ddwyieithog.
- Rhoddodd yr Ymgynghorydd Polisi Iaith gyflwyniad yng Nghynhadledd Cyflogiaith a Chynhadledd Dwyieithrwydd mewn Addysg, gan bwysleisio pwysigrwydd o feddwl am yr iaith Gymraeg fel sgil yn y gweithle.
- Mynychodd yr Ymgynghorydd Polisi Iaith gyfarfodydd Rhwydiaith Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a gynhelir bob chwarter gyda Swyddogion Polisi Iaith sefydliadau cyhoeddus eraill yn mynychu er mwyn trafod materion deddfwriaethol, ynghyd â rhannu arfer da ac unrhyw fentrau newydd.
- Rhoddodd aelod o'n Grŵp Pencampwyr o'r Gwasanaethau Cyllid a Chorfforaethol gyflwyniad yng nghynhadledd Hunaniaith Gwynedd wedi'i hanelu at Bencampwyr ar sut y mae'n cyflawni'i rôl o fewn y tîm a sut y mae wedi defnyddio a datblygu sgiliau'r siaradwyr Cymraeg o fewn y tîm i gyfieithu'u hysbysiadau'u hunain ar gyfer y busnes wrth gyhoeddi diweddariadau TGCh. Dechreuodd hyn fel prosiect peilot sydd wedi parhau yn llwyddiannus.

Mae'r Ymgynghorydd Polisi Iaith yn parhau i fod yn rhan o'r grŵp Hunaniaith gyda Chyngor Sir Gwynedd, Grŵp Gweithredol Dyfodol Dwyieithog Bwrdd Gwasanaethau Lleol Ceredigion a Rhwydiaith (rhwydwaith Swyddogion Iaith Gymraeg). Mae'r cyfarfodydd hyn yn fuddiol wrth rannu arfer da a gwybodaeth.

Grŵp Pencampwyr

Mae'r Grŵp Pencampwyr wedi cyfarfod bedair gwaith yn ystod y flwyddyn. Mae cyfarfodydd eleni wedi'u cynnal gan ddefnyddio Skype sydd wedi'i gwneud yn haws i aelodau gymryd rhan yn y mwyaf o'r cyfarfodydd. Mae'r grŵp bellach wedi'i sefydlu gyda nifer o'r Pencampwyr yn rhagweithiol wrth hyrwyddo defnydd o'r iaith ym mhob Cyfarwyddiaeth a dod ag enghreifftiau o arferion da i'w rhannu yn ein cyfarfodydd.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r grŵp wedi parhau i hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn rhagweithiol yn eu Cyfarwyddiaethau. Caiff cofnodion cyfarfodydd y Pencampwyr eu cyfieithu i Gymraeg llafar gyda geiriau llai cyfarwydd yn cael eu cofnodi mewn cromfachau ochr yn ochr â'r geiriau Cymraeg, mae hyn wedi helpu nifer o'n dysgwyr i ddarllen ac i allu deall fersiwn Gymraeg y cofnodion.

Dyma rai enghreifftiau o waith rhagweithiol y Pencampwyr wrth drefnu a rhannu arfer da â'i gilydd:

- Annog staff i ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg mewn cyfarfodydd anffurfiol heb gyfieithwyr ar y pryd, gyda siaradwyr Cymraeg rhugl yn gweithredu fel cyfieithwyr ar gyfer y di-Gymraeg.
- Teithiau cerdded amser cinio lle mae dysgwyr a siaradwyr Cymraeg rhugl ymarfer eu sgiliau iaith yn anffurfiol
- Mae clwb gwaith cartref Cymraeg wedi'i sefydlu yn ein swyddfa yn Nhrefynwy, lle mae siaradwyr Cymraeg rhugl yn helpu'r dysgwyr gyda'u gwaith cartref wythnosol.
- Pencampwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol yn allweddol wrth sefydlu tudalen ar system AD/ Cyllid MyNRW ar gyfer cofnodi sgiliau Cymraeg staff, bydd hyn yn ei gwneud yn haws ar gyfer dibenion adrodd.
- Mae gan bob Cyfarwyddiaeth darged ar gyfer yr iaith Gymraeg, sy'n gyraeddadwy i'r staff i gyd, yn ei Chynllun Cyflawni.
- Eleni mae is-grŵp o'r Pencampwyr wedi'i sefydlu yn y De yn ogystal â'r Gogledd gyda chynrychiolydd ym mhob un o'n swyddfeydd.
- Mae staff sy'n dysgu Cymraeg yn ein swyddfa yn Aberystwyth yn cyfarfod bob dydd Llun am baned a sgwrs anffurfiol yn y Gymraeg.
- Mae Gair yr Wythnos wedi'i lansio yn nifer o'r Cyfarwyddiaethau, sy'n ymddangos i fod yn boblogaidd gyda'r staff, mae'r gair Cymreig hefyd yn cael ei ysgrifennu'n ffonetig i helpu'r

di-Gymraeg gyda'r ynganiad. Mae ein Cyfarwyddiaeth Trawsnewid wedi symud ymlaen gyda hyn ac yn cyflwyno brawddegau sylfaenol i helpu staff ddod yn gyfarwydd â defnyddio mwy o Gymraeg yn y gwaith.

- Mae Pencampwr Gogledd a Chanolbarth Cymru wedi llunio holiadur ar gyfer dysgwyr yn gofyn pa help ymarferol allai'r sefydliad roi iddynt gyda'u dysgu, rhannwyd yr holiadur hwn gyda'r holl Bencampwyr ar gyfer ei ddefnyddio.
- Ysgrifennodd Pencampwr Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio erthygl am ei thaith yn dysgu Cymraeg dros y chwe blynedd diwethaf, gan gynnwys awgrymiadau a chynghor ar gyfer dysgwyr eraill, cyhoeddwyd yr erthygl nodwed "Diwrnod ym Mywyd" ar y fewnrwyd.
- Mae'r tîm Cyfleusterau wedi rhoi hysbysfwrdd ym mhob un o'n swyddfeydd ar gyfer dibenion yr iaith Gymraeg. Caiff yr hysbysfwrdd ei ddefnyddio i hysbysu staff o bwy yw'r Pencampwyr a'u manylion cyswllt, hysbysebu cyrsiau, ein Cynllun Mentora ac unrhyw newyddion/wybodaeth arall sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg.
- Cafodd Pencampwr ei gyfnewid ar Radio Cymru yn siarad am ddysgu Cymraeg a'r gefnogaeth a gafodd gan y sefydliad i wneud hynny.
- Mae nifer o'r Pencampwyr yn Fentoriaid i'n dysgwyr Cymraeg.

TGCh

Mae'n tîm TGCh wedi parhau gyda'r gwaith o ddatblygu'n systemau brand Cyfoeth Naturiol Cymru ein hunain, wrth i ni barhau gyda'r symudiad oddi wrth y cytundebau gwasanaeth presennol gyda'n cyrff blaenorol. Caiff y Gymraeg ei hymgorffori yn y broses benderfynu wrth ddatblygu neu gaffael systemau TGCh.

Lansiwyd desg gwasanaeth TGCh Ddwieithog newydd yn ystod y flwyddyn, gan roi'r dewis i'n staff o siarad gyda thechnegydd desg gwasanaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

Mae ein tîm TGCh yn awr yn cyfieithu'u holl negeseuon staff mewnol gan ddefnyddio system gymorth Cysill / Cysgeir sydd ar gael ar gais i'n holl staff. Mae cael tîm o siaradwyr Cymraeg rhugl wedi helpu i leihau'r ddibyniaeth ar ein Tîm Cyfieithu wrth iddynt ddod yn fwy hyderus a chael eu hannog i ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg.

Recriwtio

Mae'r Ymgynghorydd Polisi Iaith wedi parhau i asesu pob swydd wag ar gyfer gofynion y Gymraeg, caiff pob swydd wag ei thrafod gyda'r rheolwr recriwtio ynghyd â nifer o siaradwyr Cymraeg ym mhob tîm. Oherwydd y gostyngiad cyfredol mewn recriwtio allanol yn y sector cyhoeddus, hysbysebwyd y mwyafrif o'r swyddi gwag yn fewnol. Gan ddilyn y broses sydd gennym mewn lle, mae hyn yn galluogi'n staff i ddatblygu'u sgiliau Cymraeg fel ein bod yn cynyddu'n sgiliau dwyieithog ar gyfer y dyfodol. Mae'r broses hon yn helpu i sicrhau bod gan bob tîm gapasiti o siaradwyr Cymraeg a hefyd yn rhoi cyfle i'n staff ddatblygu'r sgiliau hyn lle bo angen.

Hysbysebwyd 187 o swyddi yn ystod y flwyddyn gyda'r mwyafrif yn cael eu hysbysebu'n fewnol. Hysbysebwyd y swyddi gyda'r gofynion iaith Gymraeg a ganlyn: -

- Hysbysebwyd 1 swydd ar Lefel 5 - Cymraeg rhugl yn ysgrifenedig ac ar lafar
- Hysbysebwyd 17 o swyddi ar Lefel 4 - Siaradwr Cymraeg rhugl
- Hysbysebwyd 1 swydd ar Lefel 4 - Siaradwr Cymraeg rhugl neu barodrwydd i ddysgu i'r lefel angenrheidiol fel amod penodi
- Hysbysebwyd 6 o swyddi ar Lefel 3 - Y gallu i siarad Cymraeg yn hyderus ar faterion sy'n gysylltiedig â gwaith
- Hysbysebwyd 44 o swyddi ar Lefel 3 - Y gallu i siarad Cymraeg yn hyderus ar faterion sy'n gysylltiedig â gwaith neu barodrwydd i ddysgu i lefel angenrheidiol fel amod o'r penodiad

- Hysbysebwyd 118 o swyddi ar Lefel 1 – Y gallu i ddefnyddio ymadroddion i gynnal sgwrs elfennol yn y Gymraeg ac i ynganu enwau lleoedd Cymraeg yn gywir

Cynllun Hyfforddiant Cymraeg

Dyma ail flwyddyn ein Rhaglen Hyfforddiant Cymraeg, sydd wedi bod yn boblogaidd iawn, gyda 254 o aelodau o staff yn mynychu hyfforddiant Cymraeg ar wahanol lefelau, gyda deuddeg aelod yn sefyll arholiadau ar wahanol lefelau, a phob un ohonynt yn llwyddo i basio'r arholiadau hyn. Rhoddwyd amser i ffwrdd i'r holl staff ar gyfer yr arholiad gyda rhai yn cymryd seibiant astudio yn unol â'n Canllawiau Hyfforddiant Cymraeg.

Rydym wedi cynnal 15 o gyrsiau yn fewnol gyda thiwtor yn dod i mewn i'r swyddfa'n wythnosol, mae'r cyrsiau hyn yn llwyddiannus gyda fawr iawn o staff yn rhoi'r gorau iddi. Anfonwyd ffurflenni gwerthuso at bob un o'n dysgwyr yn gofyn eu barn am ansawdd y gwersi ac yn gofyn am sylwadau. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau negyddol ar y ffurflenni gwerthuso ac roedd canran uchel yn gwerthfawrogi cael y cyfle i ddysgu Cymraeg yn ystod oriau gwaith, gan drin hyfforddiant Cymraeg yn yr un modd ag unrhyw gwrs hyfforddi arall yn y gweithle.

Mae dau aelod o'n Tîm Gweithredol yn dysgu Cymraeg ac ar hyn o bryd yn mynychu cwrs bloc Dechreuwyr 1 + 2 yn fisol drwy Ganolfan Cymraeg i Oedolion Caerdydd. Oherwydd eu hymrwymadau gwaith roedd yn well ganddynt ddysgu Cymraeg fel hyn, un diwrnod y mis, yn hytrach na dwy awr yr wythnos. Mae dau o aelodau'n Bwrdd hefyd wrthi'n dysgu Cymraeg.

Mae trefniadau ar waith i aelodau newydd ein Bwrdd fynychu cwrs undydd ynganu, "Cyfarch", ynghyd ag aelodau eraill o staff.

Cynhaliwyd pedwar cwrs ynganu "Cyfarch" yn ystod y flwyddyn, gyda 55 aelod o staff yn mynychu. Cynhaliwyd dau o'r cyrsiau yng Nghaerdydd, un yn Rhuddlan a'r llall yn Y Trallwng.

Mae'n Timau Cyfleusterau yn y broses o osod hysbysfwrdd Cymraeg ym mhob un o'n swyddfeydd. Bydd y rhain yn cael eu defnyddio i hysbysebu digwyddiadau hyfforddi, enw a manylion cyswllt aelodau'r Grŵp Pencampwyr a hefyd hysbysebu'r Cynllun Mentora. Profodd hyn i fod yn ffordd effeithiol o gyfathrebu â staff am gyrsiau hyfforddi Cymraeg.

Cynhaliwyd cwrs ysgrifennu ar gyfer ein siaradwyr Cymraeg rhugl - "Cwrs Graenus" fis Hydref, yn ein swyddfa yn Cross Hands, mynychodd 9 o bobl y cwrs oedd wedi'i deilwra i gynnwys terminoleg CNC. Gweithiodd y Cydlynnydd Hyfforddiant Cymraeg gyda'r cynadledwyr a'r tiwtor i benderfynu ar gynnwys y cwrs. Unwaith eto bu'r cwrs yn llwyddiant gyda'r holl fynychwr yn cwblhau ffurflen werthuso ar ddiwedd y dydd.

Cefnogwyd pum aelod o staff i fynychu cwrs Calan "Graenus" a bu nifer staff ar gyrsiau adolygu.

Fel rhan o ddathliadau Dydd Gŵyl Dewi, cyhoeddwyd erthygl ar y Fewnwyd yn tynnu sylw'r holl staff at Ddydd Gŵyl Dewi ac yn yr erthygl rhoddwyd sylw i'n Cynllun Mentora ynghyd â'r manteision i iechyd o siarad a dysgu Cymraeg, yn ôl ymchwil a gynhaliwyd gan Brifysgol Caeredin a gyhoeddodd eu canfyddiadau.

Gwobrau

Mae'n sefydliad yn falch iawn o fod wedi ennill cleient y flwyddyn, Cymraeg yn y Gweithle gan Gymraeg i Oedolion Caerdydd ym mis Gorffennaf 2015. Mynychodd rai o'n dysgwyr y seremoni ynghyd â Chyfarwyddwr Gweithredol Datblygu Sefydliadol a Rheoli Pobl. Rhyddhawyd datganiad i'r wasg a gyhoeddwyd ar wefan Prifysgol Caerdydd, a chyhoeddwyd erthygl nodweddd am y wobwr ar ein mewnwyd a thudalen Yammer.

Dyfarnwyd Gwobr Dysgwr y Flwyddyn gan Goleg Gwent i aelod o'n staff am yr ymdrech a wnaeth wrth ddysgu Cymraeg hyd yn hyn. Mynychodd yr aelod o staff seremoni i dderbyn y wobwr fis

Hydref. Soniwyd am hyn ar dudalen Twitter Coleg Gwent ac mewn erthygl nodwedd ar ein tudalen mewnwyd a Yammer.

Cynllun Mentora

Codwyd ymwybyddiaeth o'n Cynllun Mentora drwy ein sianelau cyfathrebu, yn y Cylchlythyr Misol i Reolwyr, Yammer a hefyd ar yr hysbysfyrddau Cymraeg ym mhob un o'n swyddfeydd, gan dynnu sylw at y manteision o ddefnyddio'r iaith y tu allan i'r ystafell ddosbarth a chael sgwrs anffurfiol gyda siaradwr Cymraeg rhugl.

Hyd yma mae 10 o ddysgwyr wedi cofrestru ar gyfer ein Cynllun Mentora, a 16 aelod o staff wedi cynnig bod yn Fentoriaid. Anfonir ffurflen werthuso i'r dysgwyr yn gofyn am eu barn am y cynllun ac yn gofyn pa gymorth pellach yr hoffent ei dderbyn.

Adroddiad Monitro Blynyddol 2015-2016

Gofynnodd Comisiynydd y Gymraeg i ni adrodd ar nifer o dargedau, fel y nodir isod.

1. Cydymffurfiaeth â'r Cynllun Iaith Gymraeg

- a) Adrodd yn erbyn targedau a osodwyd yng Nghynllun Gweithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg.

Mae ein Cynllun Gweithredu ar gyfer 2015-2016 wedi'i amgáu yn Atodiad 1, ynghyd â naratif ar yr hyn sydd wedi'i gyflawni hyd yn hyn.

Gwasanaethau Rheng Flaen

- b) Data a gwybodaeth am sgiliau iaith a darpariaeth mewn derbynfeydd a'r ganolfan gyswllt:

Mae gennym 8 swyddfa gyda derbynfeydd cyhoeddus, mae gennym nifer o swyddfeydd eraill ledled Cymru heb dderbynfeydd penodol. Ym mhob swyddfa mae arwyddion i ddweud wrth ymwelwyr ein bod yn cynnig gwasanaeth dwyieithog.

Amlinellir manylion pob swyddfa ac argaeledd/sgiliau staff y derbynfeydd isod:-

Swyddfa Aberystwyth – Staff Derbynfya Llywodraeth Cymru – Dwyieithog (mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn denantiaid yn y swyddfa, mae nifer o siaradwyr Cymraeg rhugl yn gweithio'n ein swyddfa yn Aberystwyth sy'n gallu trafod materion yn Gymraeg gydag aelodau o'r cyhoedd sy'n ymweld â'r swyddfa).

Swyddfa Maes y Ffynnon, Bangor – 1 swydd benodol ar gyfer y dderbynfya - Dwyieithog

Swyddfa Llwyn Brain, Bangor – 1 swydd benodol ar gyfer y dderbynfya - Dwyieithog

Swyddfa Bwcle – 1 swydd benodol ar gyfer y dderbynfya - Dwyieithog

Tŷ Cambria, Caerdydd - 3 aelod o staff yn rhannu dyletswydd derbynfya, 2 yn ddwyieithog, 1 yn gallu cyfarch a chroesawu'n ddwyieithog.

Plas yr Afon, Caerdydd - 3 aelod o staff yn rhannu dyletswydd derbynfya - Ddim yn ddwyieithog (i gyd yn gallu cyfarch a chroesawu'n ddwyieithog).

Llys Afon, Hwlfordd – 1 swydd benodol ar gyfer y dderbynfya – Ddim yn ddwyieithog (yn gallu cyfarch a chroesawu'n ddwyieithog, gelwir ar aelodau staff y swyddfa sy'n siarad Cymraeg i ddelio ag ymholiadau yn y Gymraeg)

Maes Newydd, Llandarcy – Dim swydd benodol ar gyfer y dderbynfa – 2 aelod o staff yn rhannu dyletswydd derbynfa 1 yn ddwyieithog, 1 yn gallu cyfarch a chroesawu'n ddwyieithog.

Canolfan Cyswllt Cwsmeriaid - 16 o staff yn gweithio'n ein Canolfan Cyswllt Cwsmeriaid, 12 yn siaradwyr rhugl a 2 yn dysgu Cymraeg ar Lefel 1. Mae'r Ganolfan Cyswllt Cwsmeriaid yn ateb pob galwad i'r sefydliad, gyda'r system yn rhoi dewis i'r sawl sy'n ffonio naill ai i siarad â gweithredwr yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Ym mhob un o'n swyddfeydd mae gennym nifer o siaradwyr Cymraeg rhugl sy'n gallu delio ag ymholiadau gan aelodau o'r cyhoedd yn Gymraeg.

Canolfan Ymwelwyr Ynys Las – (tymhorol yn unig) - 1 yn siarad Cymraeg yn rhugl, 1 yn siarad Cymraeg ar lefel 3, 1 ar lefel 1. 1 Swyddog Addysg sy'n gweithio o'r Ganolfan yn rheolaidd yn siarad Cymraeg yn rhugl.

Canolfan Ymwelwyr Garwnant – (ar agor drwy'r flwyddyn) 2 aelod o staff y dderbynfa'n dysgu Cymraeg ar Lefel 2, a'r 2 aelod o'r Tîm Addysg sy'n gweithio o'r Ganolfan yn siarad Cymraeg yn rhugl.

Bwlch Nant yr Arian - (ar agor drwy'r flwyddyn) dyletswyddau derbynfa'n cael eu cyflawni ar system rota gan 4 aelod o staff, 2 yn siarad Cymraeg yn rhugl ac 1 yn dysgu Cymraeg. 1 Swyddog Addysg sy'n gweithio o'r Ganolfan bedwar diwrnod yr wythnos yn siarad Cymraeg yn rhugl. 3 aelod o staff y caffin siarad Cymraeg yn rhugl.

Coed y Brenin – (ar agor drwy'r flwyddyn) dyletswyddau derbynfa'n cael eu cyflawni ar system rota gan 2 aelod o staff, 1 yn siarad Cymraeg yn rhugl ac 1 ar Lefel 2. Mae holl staff y caffin siarad Cymraeg yn rhugl.

2. Rheoli a Gweithredu'r Cynllun

- a) Adrodd ar ofynion y Gymraeg mewn cytundebau ac esbonio unrhyw drefniadau i adolygu neu wella'r ystyriaeth a roddir i'r Gymraeg.

Mae prosesau caffael newydd yn dal i gael eu datblygu'n unol â'r Fframwaith Llywodraethiant Caffael ac yn parhau i fod ar y trywydd iawn. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n gweithio i sicrhau bod ein prosesau caffael yn unol â Datganiad Polisi Caffael Cymru (Mehafin 2015) a'r Rheoliadau Cytundebau Cyhoeddus 2015 Ewropeaidd newydd.

Er ein bod yn dal i ddefnyddio rhai prosesau a thempledi'r tri chorff blaenorol, mae cynnydd wedi'i wneud o ran cysoni rhai o'n gweithdrefnau allweddol:

Yn ystod 2015 rydym wedi:

1. Cyhoeddi'n telerau ac amodau safonol ar gyfer cytundebau ar ein gwefan allanol.

Mae'r telerau a'r amodau hyn ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ar ein gwefan ac yn berthnasol i bob cytundeb Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae Cymal 40 o'r Telerau Cyffredinol yn datgan:

" Rhaid i'r Contractwr gydymffurfio â Chynllun Iaith Gymraeg CNC lle mae'n berthnasol i'w waith yn cyflawni'i rwymedigaethau o dan y Contract." Caiff hyn ei ddiwygio pan ddaw'r Safonau i rym.

2. Datblygwyd Cynllun Dull y Farchnad (MAP).

Cwblheir y ddogfen hon gan y Tîm Caffael ar gyfer pob caffaeliad gyda gwerth o £25 mil a throsodd ac mae'n gosod y strategaeth gaffael ar gyfer pryniant penodol. Mae'r MAP yn gofyn cwestiynau penodol am y pryniant er mwyn nodi gofynion craidd.

Mae Adran 2.5 o'r MAP yn gofyn a fydd y cytundeb arfaethedig yn dod â chyflenwyr i gysylltiad ag aelodau o'r cyhoedd fel rhan uniongyrchol o'r gwasanaeth neu os fyddai'n darparu gwasanaethau'n uniongyrchol i staff. Os yw hyn yn wir, yna rhaid cydymffurfio â Chynllun Iaith Cyfoeth Naturiol Cymru ac â'r ystyriaethau dwyieithrwydd a gynhwyswyd yn y fanyleb fel y cynghorwyd gan yr Ymgynghorydd Polisi Iaith. Mae hyn yn unol â'r Rheoliadau Cytundebau Cyhoeddus sy'n datgan bod rhaid i ddetholiad cyflenwyr a meini prawf dyfarnu fod yn gysylltiedig ac yn gymesur â thestun y cytundeb; ac â'r arweiniad a geir yn "Gosod Contractau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Iaith Gymraeg" Llywodraeth Cymru sy'n datgan bod rhaid i'r "camau a gymerir a'r canllawiau a ddatblygir fod yn briodol yn yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol".

O ran darparu dogfennau tendro yn Saesneg ac yn Gymraeg, mae Adran 2.5.3 o'r MAP yn gofyn a oes angen darparu'r dogfennau tendro'u hunain yn ddwyieithog. Trwy ddilyn arweiniad yr Ymgynghorydd Polisi Iaith a chwblhau rhestr wirio asesu'r angen am gyfieithu a gynhwysir yng Nghynllun Iaith Gymraeg Cyfoeth Naturiol Cymru asesir pob tendr yn unigol i ganfod gofynion cyfieithu. Mae hyn yn unol â'r cyngor a geir yng Nghyllunio Caffael Gwerth Cymru (Strategaeth> Fframwaith Cyfreithiol> Iaith Gymraeg a Chaffael Cyhoeddus) sy'n datgan y dylai "prosesau caffael gydymffurfio â chynlluniau iaith cymeradwy y sefydliad unigol ei hun".

3. Mabwysiadwyd dull 'SQuID' Llywodraeth Cymru o ddewis cyflenwyr fel rhan o'r broses dendro. SQuID yw'r Gronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr sy'n cynnwys set o gwestiynau cyffredin a chanllawiau sy'n symleiddio ac yn safoni'r broses ddethol ar draws y Sector Cyhoeddus yng Nghymru ac yn gwella tryloywder. Mae set gwestiynau SQuID yn cynnwys cwestiwn CC.GEN.08 a ellir ei ofyn (ynghyd â gofynion eraill y cytundeb penodol) lle mae profiad o ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg yn ddangosydd pwysig o allu wrth lunio rhestr fer cyflenwyr posibl. (CC.GEN.08 - 'Cadarnhewch eich bod yn cwrdd ar hyn o bryd, neu y byddwch yn cwrdd os byddwch yn llwyddiannus, â gofynion mesur yr iaith Gymraeg.')
4. Defnyddiwyd gwefan GwerthwchiGymru i hysbysebu pob cytundeb, yn yr un modd â chyrrff Sector Cyhoeddus eraill yng Nghymru. Caiff rhybuddion eu cyhoeddi'n ddwyieithog, lle y bo'n briodol i bwnc y cytundeb, yn unol â chanllawiau "Gosod Contractau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Iaith Gymraeg" Llywodraeth Cymru sy'n datgan bod rhaid i'r "camau a gymerir a'r canllawiau a ddatblygir fod yn briodol yn yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol".
5. Drafftiiwyd ein Rheolau Caffael ac maent yn y broses o gael eu cymeradwyo drwy'r Pwyllgor Archwilio a phrosesau llywodraethiant corfforaethol safonol. Mae'r rheolau'n datgan, wrth gyflawni gweithgareddau caffael ar ran Cyfoeth Naturiol Cymru, bod rhaid i staff gydymffurfio â'r holl bolisiâu a deddfwriaethau priodol (mae hyn yn cynnwys Cynllun Iaith Gymraeg Cyfoeth Naturiol Cymru).

6. Nodwyd ein gofynion archwilio mewnol a gofynnodd y Pennaeth Archwilio am archwiliad mewnol yn niwedd 2016 er mwyn profi cydymffurfiaeth â'r prosesau a'r gweithdrefnau newydd. Bydd hyn yn cynnwys cydymffurfio â'n Cynllun Iaith Gymraeg.
 7. Rhoddwyd cymorth i'r Ymgynghorydd Polisi Iaith i ddatblygu ffurflen i'w defnyddio i gynorthwyo Rheolwyr Contract wrth fonitro perfformiad cytundebau ac yn enwedig, eu cydymffurfiaeth ag unrhyw ofynion i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog. Bydd y ffurflen hon yn cael ei lansio i'r busnes yn ystod y flwyddyn sydd i ddod gyda chanllawiau i helpu Rheolwyr Contract i gwblhau'r gwiriadau.
- b) Tystiolaeth bod llywodraethiant mewnol cadarn ar waith ar gyfer y Cynllun Iaith Gymraeg.

Caiff targedau'r Cynllun Iaith eu cynnwys yn ein Cynllun Busnes am y flwyddyn. Disgrifir sut mae'r sefydliad yn annog staff i ddatblygu'u sgiliau iaith ac yn croesawu cyfathrebiaeth gan gwsmeriaid yn y Gymraeg.

Mae'r Cynllun Busnes yn gysylltiedig â'n Cynllun Corfforaethol 2014-2017 sy'n egluro beth y bwriadwn ei gyflawni yn ystod y blynyddoedd nesaf o ran helpu i gryfhau'n gallu dwyieithog ymhellach, gydag ymrwymiad i wella'n gwasanaethau i gwsmeriaid a'n perthynas gyda rhanddeiliaid a phartneriaid drwy ddarparu'n Cynllun Iaith Gymraeg.

Mae gan bob Cyfarwyddiaeth Gynllun Cyflawni, sy'n amlinellu rôl y Gyfarwyddiaeth a'i thimau o ran darparu canlyniadau'n Cynllun Busnes. Mae gan bob aelod o staff amcanion personol sy'n dangos y cyfraniad sydd ganddynt i'w wneud i helpu i gyflawni'r Cynllun Cyflawni eu Cyfarwyddiaeth. Eleni mae'r Pencampwyr wedi bod yn trafod Targedau Iaith y gall holl staff y Gyfarwyddiaeth eu cyflawni, gan symud ymlaen gobeithio, i gynnwys rhai targedau mwy heriol ar gyfer pob Cyfarwyddiaeth.

Dyma enghreifftiau o dargedau mewn Cynlluniau Cyflawni Cyfarwyddiaeth:

- Holl staff wedi darllen ac yn gyfarwydd â'r Cynllun Iaith Gymraeg
- Bod yn ymwybodol o'r canllawiau sydd ar gael i'n helpu ni
- Ateb y ffôn yn ddwyieithog
- Gosod neges ffôn ateb ddwyieithog
- Gosod neges allan o'r swyddfa ddwyieithog

Mae'r Dangosfwrdd Corfforaethol yn olrhain cynnydd yn chwarterol a chaiff ei archwilio'n rheolaidd gan ein Tîm Anweithredol a'n Bwrdd Rheoli.

Mae'n Hadroddiad Blynyddol yn esbonio sut yr ydym am ddefnyddio'r Gymraeg a datblygu'n sefydliad naturiol dwyieithog lle gall cwsmeriaid a staff wneud busnes yn yr iaith o'u dewis.

- c) Crynodeb o gŵynion dilys a dderbyniwyd a'r camau a gymerwyd i'w datrys.
Eleni rydym wedi derbyn dwy gŵyn gan y cyhoedd, fel a ganlyn:-

Derbyniwyd y gŵyn gyntaf fis Ebrill 2015 am ein defnydd o'r sillafiad Coedwig Gwydyr yn y Gogledd. Cafodd y gŵyn ei chydabod a cheisiwyd cyngor Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru, drwy swyddfa Comisiynydd yr Iaith Gymraeg. Derbyniwyd gwybodaeth gan y Gymdeithas gyda'r argymhelliad mai Gwydir (ac nid Gwydyr) yw'r ffurf safonol y dylid ei defnyddio. Eglurwyd wrth yr achwynydd ein bod fel corff wedi ymgymryd â swyddogaethau tri chorff blaenorol a bod hyn yn cynnwys nifer fawr o arwyddion ledled Cymru ac yn hanesyddol defnyddiwyd y sillafiad Gwydyr gan y Comisiwn Coedwigaeth. Cadarnhawyd i'r

achwynydd bod gennym raglen waith wedi'i chynllunio dros yr ychydig flynyddoedd nesaf yn ail-frandio arwyddion, ac y byddwn yn sicrhau y defnyddir sillafiad cywir Gwydir pan fo arwyddion newydd yn cael eu gosod yn yr ardal yn y dyfodol, fel y cynghorwyd gan Gymdeithas Enwau Lleoedd Cymru.

Hysbyswyd y Tîm sy'n gyfrifol am arwyddion yn yr ardal o'r gŵyn a'r penderfyniad ar sillafiad cywir yr enw fel yr argymhellir gan Gymdeithas Enwau Lleoedd Cymru. Ni dderbyniwyd unrhyw ohebiaeth bellach ac ni chymerwyd unrhyw gamau pellach.

Derbyniwyd yr ail gŵyn ym Mehefin 2015 ar ansawdd neges Gymraeg awtomataidd a dderbyniwyd o'n cyfeiriad e-bost "ymholiadau". Gofynnodd yr achwynydd hefyd am ddolen i'n Cynllun Iaith Gymraeg. Anfonwyd ateb yn cadarnhau bod y neges awtomataidd wedi'i chywiro gan ein Tîm Cyfieithu. Eglurwyd mai ein canllawiau i staff yw y dylai pob gwaith ysgrifenedig a fwriedir ar gyfer y cyhoedd gael ei gyfieithu gan ein Tîm Cyfieithu neu gan siaradwr Cymraeg rhugl. Sicrhawyd yr achwynydd y byddwn yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod negeseuon Cymraeg yn cael eu gwirio yn y dyfodol. Anfonwyd dolen i'n Cynllun Iaith Gymraeg ynghyd â'r ateb.

Cafodd staff y Ganolfan Cyswllt Cwsmeriaid wybod am y gŵyn a'u hatgoffa y dylid dilyn y weithdrefn gywir a nodir yn y canllawiau Cyfieithu. Ni dderbyniwyd unrhyw ohebiaeth bellach ac ni chymerwyd unrhyw gamau pellach.

Rydym hefyd wedi derbyn pum cwyn gan ein staff ein hunain ynglŷn â diffyg cydymffurfiaeth gyda'n polisi iaith mewnol ein hunain wrth ohebu â grwpiau mawr o staff neu dimau. Anfonwyd nodyn at yr aelodau o staff a anfonodd bob un o'r pum gohebiaeth yn eu hatgoffa o'n polisi. Mae'r polisi hefyd wedi'i amlygu yng Nghylchlythyr Misol y Rheolwr ac fel erthygl nodweddiadol ar y Fewnwyd er mwyn atgoffa staff yn gyffredinol.

- d) Tystiolaeth o drefniadau i sicrhau ansawdd y cynnwys Cymraeg ar y wefan gorfforaethol a chynlluniau, os oes rhai, ar gyfer gwella'r cynnwys Cymraeg:

Rydym wedi parhau i gyhoeddi pob cynnwys ar dudalennau'n gwefan yn Gymraeg a Saesneg ar yr un pryd, yr unig eithriadau yw unrhyw rybuddion byr-rybudd o lifogydd.

Mae'r Tîm Cyfathrebu, ynghyd â'r tîm TGCh, wedi datblygu nifer o wasanaethau ar-lein newydd yn 2015/16, er enghraifft lefelau afonydd ar-lein:

<http://cyfoethnaturiol.cymru/afonydd?lang=cy>

Lle bo hynny'n bosibl, mae'n gwasanaethau wedi bod yn gwbl ddwyieithog. Ar hyn o bryd nid yw peth o'n cynnyrch sydd â nodweddiad mapio'n ddwyieithog gan eu bod wedi'u datblygu'n fryslog, gan ddefnyddio templedi parod i ddisodli gwasanaethau busnes hanfodol oedd yn cael eu troi i ffwrdd gan ein sefydliadau blaenorol (Asiantaeth yr Amgylchedd, Comisiwn Coedwigaeth).

Mae ail ran o'n gwasanaethau rhybudd llifogydd ar-lein yn mynd yn fyw erbyn diwedd mis Mawrth, a bydd y rhan fwyaf o'r gwasanaeth ar-lein, ar wahân i'r elfennau mapio ar hyn o bryd, yn ddwyieithog. Byddwn yn ystyried gwella'r gallu mapio drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg yn y dyfodol.

Mae'n prif gyfri cyfrwng cymdeithasol @NatResWales yn gwbl ddwyieithog. Eleni rydym wedi datblygu cyfrifon dwyieithog ychwanegol, er enghraifft [Coed y Brenin @WardenCadair](#) a [Sian Williams](#) a byddwn yn parhau i'w hyrwyddo a dosbarthu canllawiau i staff i annog mwy o weithgarwch cyfryngau cymdeithasol o gyfrifon newydd yn Gymraeg ac yn ddwyieithog gan aelodau'r staff.


Byddwn yn parhau i ddatblygu a gwella'r gwasanaethau sydd ar gael yn 2016/17 ac argaeledd gwasanaethau digidol Cymraeg lle y bo modd.


3. Sgiliau Cymraeg

a) Gwybodaeth am sgiliau Cymraeg yn y gweithle ac adrodd ar ddata.

Ar hyn o bryd rydym yn y broses o ddiweddarau'r wybodaeth am sgiliau Cymraeg ein gweithlu. Fel rhan o'r broses, mae'r staff yn hunanasesu'u sgiliau a chofnodi'r wybodaeth ar system ganolog Cyllid/AD MyNRW. Mae'r broses hon wedi bod yn mynd rhagddi ac rydym yn annog ein staff i gyflawni'r broses. Hyd yn hyn mae 74.6% (1502) o'r staff wedi cwblhau'r dasg, ac mae rheolwyr wedi'u hatgoffa i sicrhau bod eu staff yn cwblhau'r dasg. Y targed yn ein Strategaeth Sgiliau Dwyieithog yw bod 30% o'n staff yn gallu siarad Cymraeg yn hyderus erbyn 2018.

Dengys y canfyddiadau hyd yn hyn:-





Gweler dadansoddiad pellach o sgiliau ieithyddol y sefydliad yn (Atodiad 2) yr adroddiad hwn.

- b) Tystiolaeth o fuddsoddiad mewn hyfforddiant ac esboniad o gamau eraill a gymerwyd i wella sgiliau'r gweithlu:

Lansiwyd ein Rhaglen Hyfforddiant Cymraeg ym mis Mehefin 2014, dyma'r ail flwyddyn i ni weithredu'r rhaglen ac mae wedi bod yn llwyddiannus unwaith eto. Eleni mae'r rhaglen wedi cefnogi staff, yn wythnosol, fel a ganlyn: -

20 aelod o staff yn mynychu Dechreuwr 1
 77 aelod o staff yn mynychu Dechreuwr 2
 11 aelod o staff yn mynychu Sylfaen 1
 27 aelod o staff yn mynychu Sylfaen 2
 14 aelod o staff yn mynychu Canolradd 1
 19 aelod o staff yn mynychu Canolradd 2
 7 aelod o staff yn mynychu Uwch 1
 7 aelod o staff yn mynychu Uwch 2

2 aelod o staff yn mynychu Dechreuwr 1 a 2 am ddiwrnod y mis
 55 aelod o staff wedi mynychu cwrs Cyfarch undydd
 10 aelod o staff wedi mynychu cwrs Graenus wedi'i deilwra ar gyfer anghenion ein sefydliad
 5 aelod o staff wedi'u cefnogi i fynychu cwrs Cymraeg dros y Calan a chwrs adolygu tridiau

10 aelod o staff wedi cofrestru ar gyfer ein Cynllun Mentora.

- c) Tystiolaeth o ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith:

Mynychodd 55 aelod o staff gwrs "Cyfarch" undydd sy'n cynnwys sesiwn ar ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg.

4. Prif-ffrydio'r Gymraeg

- a) Gwybodaeth am y trefniadau ar gyfer asesu effaith polisiâu ar yr iaith Gymraeg ac unrhyw gamau a gymerwyd i adolygu trefniadau er mwyn sicrhau y cynhelir asesiad priodol:

Ers y llynedd mae'r iaith Gymraeg wedi'i chynnwys fel ystyriaeth ar ein ffurflen a chanllawiau Asesu Effaith Cydraddoldeb, gan sicrhau bod yr iaith yn rhan o'r broses sgrinio ar gyfer pob polisi, cynllun a phrosiect. Mae'r Uwch Ymgynghorydd Cynllunio Gweithlu a Chydraddoldeb yn sicrhau bod yr Ymgynghorydd Polisi Iaith yn cael gweld pob Asesiad Effaith Cydraddoldeb er mwyn rhoi sylwadau a'u hawdurdodi.

Yn ystod 2015/16 aeth y gwaith Asesu Effaith Cydraddoldeb rhagddo a chafwyd 28 o asesiadau gan gynnwys 8 prosiect Adolygiad Ardal Fusnes sydd i gyd yn llunio Asesiadau lefel uchel o Effaith Cydraddoldeb, gydag asesiadau tasg-benodol i ddilyn. Mae'r Adolygiadau Effaith Cydraddoldeb Ardal Fusnes yn ystyried gwybodaeth hunan-ddatgeliad benodol a gesglir yn wirfoddol gan ein staff.

Cyn hir byddwn yn cyhoeddi'n Cynllun Busnes yn ogystal â'n Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb ar gyfer 2016/17. Mae'r ddwy ddogfen strategol, lefel uchel yma wedi bod drwy ein proses Asesu Effaith Cydraddoldeb.

Dros y misoedd nesaf byddwn yn symleiddio'n proses Asesu Effaith Cydraddoldeb a sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn parhau i fod â statws cyfartal yn unol â nodweddion gwarchoddedig Deddf Cydraddoldeb 2010.

Mae'r Uwch Ymgynghorydd Cynllunio Gweithlu a Chydraddoldeb yn cydweithio'n agos gyda'r Ymgynghorydd Polisi Iaith er mwyn sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn cael ei hystyried ynghyd â nodweddion gwarchoddedig mewn penderfyniadau polisi, gan godi ymwybyddiaeth o'r iaith, yn ogystal â chydraddoldeb.

- c) Gwybodaeth am unrhyw gamau a gymerwyd i ehangu a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.

- Ym mis Gorffennaf cyflwynwyd yn fewnol, Ddesg Gwasanaeth TGCh Ddwyeithog newydd, system a ddatblygwyd yn ddwyieithog gan roi'r dewis i'n staff o drafod materion TGCh gyda thechnegydd desg gwasanaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
- Bellach, nid yw'r Tîm desg gwasanaeth TGCh yn defnyddio gwasanaethau'n Tîm Cyfieithu mewnol, ond yn hytrach maent yn cyfieithu negeseuon i'r busnes sy'n gysylltiedig â TGCh, eu hunain, gan ddefnyddio meddalwedd Cysill / Cysgeir, mae nifer fawr o siaradwyr Cymraeg yn y tîm.
- Anogir y staff i bostio negeseuon yn eu hiaith ddewisol ar Yammer, mae negeseuon sefydliadol yn cael eu postio'n ddwyieithog.
- Ar hyn o bryd rydym yn y broses o dreialu offeryn cyfieithu TG newydd sy'n golygu y gall staff gyfieithu darnau byrion o waith eu hunain. Mae'r offeryn yn cael ei dreialu gan aelodau o'r staff sy'n ysgrifennu Cymraeg yn hyderus, ac mae'r Tîm Cyfieithu wrth law i gymryd golwg os oes angen. Wedi i'r cyfnod treialu hwn ddod i ben byddwn yn gwerthuso'r holl sylwadau a dderbyniwyd gan y rhai sy'n ymwneud â'r cynllun peilot ac

yn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â lansio'r teclyn cyfieithu TG i'r busnes ar gyfer cyfieithu darnau bychain o waith. Bydd yr offeryn hwn hefyd o help i'n siaradwyr Cymraeg dihyder wrth ysgrifennu'n Gymraeg a hefyd i'n dysgwyr drwy roi cyfle iddynt adeiladu'u hyder i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith, gyda chymorth.

- Caiff staff eu hannog i ddefnyddio'u Gymraeg wrth roi cyflwyniadau a gofyn cwestiynau yn eu dewis iaith mewn cyfarfodydd tîm.
- Caiff pob cyfarfod ei agor a'i gau'n ddwyieithog gan y Cadeirydd.

5. Dadansoddi Perfformiad

a) Adnabod risgiau a pharatoi ar gyfer y flwyddyn nesaf:-

Risgiau:-

- Rydym yn parhau i fonitro risgiau i ofynion targedau'n Cynllun Iaith ar wahanol lefelau, mae Cynllun Cyflawni Cyfarwyddiaeth Datblygu Rheolaeth a Rheoli Pobl yn cynnwys yr iaith Gymraeg ac yn amlinellu'r rôl sydd gan y Gyfarwyddiaeth i'w chwarae o ran cyflawni canlyniadau'r Cynllun Busnes. Hefyd, mae gan bob Cyfarwyddiaeth gofrestr risg sy'n olrhain y cynnydd a wneir ar y targedau a osodwyd. Rydym yn ceisio datrys unrhyw faterion a ddaw i'r amlwg, lle y bo'n briodol.
- Mae'r rhaglen ail-strwythuro a newid bellach wedi'i chwblhau, ac mae adolygiad ardal fusnes yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Oherwydd hyn, nid ydym wedi llwyddo i symud ymlaen i sicrhau'n bod yn gweithredu'n Strategaeth Sgiliau Dwyieithog yn llawn. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi bod yn annog ein staff i hunanasesu'u sgiliau Cymraeg a'u cofnodi ar MyNRW, sy'n un o ymrwymadau'r Strategaeth. Hefyd bydd angen cynnal ymarfer mapio busnes cyfan i bennu lefel y Gymraeg ar gyfer pob swydd o fewn y sefydliad gan ddefnyddio'n canllawiau Staffio a Recriwtio i wneud hyn. Mae'r ymarfer hwn yn debygol o gymryd nifer o fisoedd a bydd angen i ni ddadansoddi'r wybodaeth sydd gennym eisoes ar allu'n siaradwyr Cymraeg. Defnyddir y wybodaeth hon i'n helpu i gynllunio pryd a ble yr ydym yn debygol o gollu siaradwyr Cymraeg yn y dyfodol a lle mae angen i ni gynyddu capasiti ar hyn o bryd. Mae'r Strategaeth yn rhannol weithredol gyda'r rhaglen Hyfforddiant Iaith Gymraeg yn ei lle.
- O'r 74.6% (1502) o staff sydd wedi hunanasesu'u sgiliau Cymraeg dengys ein data bod 24.5% (368) o'n staff yn siaradwyr Cymraeg rhugl, ein targed yw cynyddu hyn i 30% erbyn 2018. Ar hyn o bryd mae 3% (47) aelod o staff yn dysgu ar lefel Ganolradd ac Uwch ac yn debygol o ddod yn siaradwyr Cymraeg rhugl gyda chefnogaeth. Bydd angen i ni annog rhai o'n 93 (6.2%) o staff sydd wedi hunanasesu ar Lefel 3 i ddatblygu'u sgiliau iaith os ydym am gyrraedd y targed a nodir yn ein Strategaeth Sgiliau Dwyieithog.

Blaenoriaethau'r flwyddyn nesaf:-

- Gan ein bod wedi derbyn y Safonau Iaith drafft arfaethedig ar gyfer ein sefydliad yn ddiweddar, caiff dadansoddiad o bob un o'r Safonau arfaethedig ei ddrafftio, gan amlinellu unrhyw waith sydd ei angen er mwyn sicrhau bod y sefydliad yn gallu cydymffurfio â'r Safonau o fewn y cyfnod ymgynghori o wyth wythnos a roddir gan y Comisiynydd y Gymraeg.
- Codi ymwybyddiaeth staff o'r Safonau Iaith a'u gofynion ym mhob maes o'r busnes, sicrhau bod canllawiau ar gael i helpu ac esbonio i'r staff yr hyn fydd yn ddisgwyliedig.
- Trefnu cwrs ar gyfer staff sydd ynghlwm â phenderfyniadau polisi, i sicrhau bod y staff yma'n deall pa ystyriaethau y dylid eu rhoi i'r iaith Gymraeg wrth ddatblygu polisiau a phrosiectau a'r effeithiau y gall penderfyniadau eu cael ar yr iaith, boed hynny'n gadarnhaol neu'n negyddol. Bydd hyn yn helpu'r sefydliad i baratoi ar gyfer cydymffurfio â'r Safon Lluo Polisi, yn gynnar yn 2017.

- Mae cyrsiau Gloywi Iaith i'w trefnu ar gyfer ein siaradwyr Cymraeg rhugl i'w helpu i fagu hyder wrth ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg a lleihau'r ddibyniaeth ar ein Tîm Cyfieithu, gan eu galluogi i ysgrifennu yn Gymraeg heb orfod cael rhywun i fwrw golwg drosto.
- Cwrs wedi'i anelu at ein staff sy'n siarad neu wedi dysgu Cymraeg i Lefel 3 (gallu trafod materion yn gysylltiedig â gwaith yn hyderus). Caiff y cwrs hwn ei deilwra ar gyfer iaith Cyfoeth Naturiol Cymru, i roi hyder staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.
- Parhau gyda'n Rhaglen Hyfforddiant Cymraeg i gefnogi'n staff sydd angen neu sy'n dymuno dysgu Cymraeg at ddibenion gwaith.
- Trefnu rhagor o gyrsiau undydd "Cyfarch" ar gyfer staff sydd, yn ôl eu hunan-asesiad, heb unrhyw sgiliau Cymraeg, sef gofyniad ieithyddol sylfaenol yn y sefydliad
- Cynhyrchu llawlyfr o dermau ac ymadroddion Cymraeg defnyddiol a fydd yn cynnwys terminoleg Cyfoeth Naturiol Cymru. Byddwn yn anelu at gynnwys ynganiad ffonetig cyfarchion bob dydd, defnyddiol i helpu'n staff wrth gyfarfod a chyfarch pobl eraill.
- Byddwn yn lansio'n ffurflen Gymraeg Monitro Contractau newydd a chynhyrchu canllawiau ar gyfer Rheolwyr Contract, bydd hyn yn helpu rheolwyr i ddeall gofynion y Cynllun a'r Safonau sydd ar ddod.
- Gweithio gydag aelodau o staff TGCh i adolygu'r systemau sydd gennym o ran eu capasiti dwyieithrwydd.
- Yr Arolwg Pobl i'w lansio fis Ebrill 2016, gofynnir y cwestiwn i'r holl staff sy'n cymryd rhan os ydynt yn teimlo bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn datblygu o ran dod yn sefydliad dwyieithog.
- Parhau gyda'r gwaith o annog ein staff i hunan-asesu eu sgiliau Cymraeg a'u cofnodi ar MyNRW gan anelu at gael o leiaf 90% wedi gwneud hyn erbyn diwedd y flwyddyn galendr.
- Datblygu'n tudalen Hyfforddiant Cymraeg ar y fewnrwyd gydag awgrymiadau a chynghorion defnyddiol i helpu dysgwyr a siaradwyr Cymraeg. Rydym hefyd yn gobeithio datblygu'n hadnoddau dysgu ar-lein ein hunain i helpu staff gydag ymadroddion cwrdd a chyfarch sylfaenol a therminoleg ddefnyddiol a ddefnyddir o fewn y busnes.

b) Enghreifftiau o arfer da perthnasol

- Ym mhob cyfarfod staff tîm Cyfarwyddiaeth Gogledd a Chanolbarth Cymru, anogir staff i ddefnyddio'r Gymraeg wrth roi cyflwyniadau a gofyn cwestiynau a.y.b. gyda Chyfieithydd ar y Pryd yno er hwylustod.
- Parhau â'n rhaglen hyfforddiant Cymraeg wythnosol gyda thiworiaid yn dod i rai o'n swyddfeydd i gynnal dosbarthiadau yn ystod oriau gwaith, oherwydd hyn, mae llai o staff yn rhoi'r gorau i'r gwersi na phan fônt yn mynychu gwersi allanol.
- Sicrhau bod yr holl staff sydd heb unrhyw sgiliau Cymraeg yn mynychu'r cwrs "Cyfarch" undydd.
- Is aelodau'r Grŵp Pencampwyr ym mhob un o'n swyddfeydd a'n tîm Cyfleusterau wedi'i gwneud yn haws dosbarthu gwybodaeth i'r holl staff.
- Cynyddu'r cyfleoedd i staff weithio'n ddwyieithog drwy gyflwyno desg gwasanaeth TGCh ddwyieithog.
- Ymwybyddiaeth barhaus a hyrwyddo'r iaith Gymraeg trwy ein sianelau cyfathrebu arferol.
- Ym mis Gorffennaf cyflwynwyd yn fewnol, Ddesg Gwasanaeth TGCh Ddwyieithog newydd, system a ddatblygwyd yn ddwyieithog gan roi'r dewis i'n staff i drafod materion TGCh gyda thechnegydd desg gwasanaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

- Bellach, nid yw'r Tîm desg gwasanaeth TGCh yn defnyddio gwasanaethau'n Tîm Cyfieithu mewnol, ond yn hytrach maent yn cyfieithu negeseuon i'r busnes sy'n gysylltiedig â TGCh, eu hunain, gan ddefnyddio meddalwedd Cysill / Cysgeir, mae nifer fawr o siaradwyr Cymraeg yn y tîm.
- Anogir y staff i bostio negeseuon yn eu hiaith ddewisol ar Yammer, mae negeseuon sefydliadol yn cael eu postio'n ddwyieithog.
- Datblygu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol Cymraeg.
- Ar hyn o bryd rydym yn y broses o dreialu offeryn cyfieithu TG newydd sy'n golygu y gall staff gyfieithu darnau byrion o waith eu hunain. Mae'r offeryn yn cael ei dreialu gan aelodau o'r staff sy'n ysgrifennu Cymraeg yn hyderus, ac mae'r Tîm Cyfieithu wrth law i gymryd golwg os oes angen. Wedi i'r cyfnod treialu hwn ddod i ben byddwn yn gwerthuso'r holl sylwadau a dderbyniwyd gan y rhai sy'n ymwneud â'r cynllun peilot ac yn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â lansio'r teclyn cyfieithu TG i'r busnes ar gyfer cyfieithu darnau bychain o waith. Bydd yr offeryn hwn hefyd o help i'n siaradwyr Cymraeg dihyder wrth ysgrifennu yn Gymraeg a hefyd i'n dysgwyr drwy roi cyfle iddynt adeiladu'u hyder i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith, gyda chymorth.
- Caiff pob cyfarfod ei agor a'i gau'n ddwyieithog gan y Cadeirydd.

c) Tystiolaeth o ymdrech i fonitro ansawdd y gwasanaeth Cymraeg/ neu gasglu barn defnyddwyr:

Nid oes unrhyw waith wedi'i wneud yn y maes hwn hyd yn hyn, cynhaliwyd trafodaethau rhwng yr Ymgynghorydd Polisi Iaith a Rheolwr y Ganolfan Gofal Cwsmeriaid ar fonitro ansawdd y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

Roeddem yn falch o dderbyn e-bost yn dilyn gwaith a wnaeth ein sefydliad oherwydd y llifogydd dros gyfnod y Nadolig. Anfonodd aelod o'r cyhoedd e-bost yn diolch i'n staff am eu gwaith ac yn dweud gymaint yr oedd yn gwerthfawrogi gallu trafod materion yn Gymraeg ar adeg pan deimlai'n bryderus iawn oherwydd bod llifogydd yn agos i'w chartref.

6. Cynllun Iaith Gymraeg – Dangosyddion Perfformiad

Gwasanaethau Contract - % o'r contractau sampl a gafodd eu monitro o ran cydymffurfiaeth gyda gofynion y Cynllun Iaith Gymraeg:

Caiff gwaith rheoli a gweinyddu pob contract ei fonitro gan y rheolwr contract sy'n gyfrifol am y contract. Yn ystod y flwyddyn nesaf, bydd proses Monitro Contractau Gymraeg newydd yn cael ei chyflwyno i fonitro pob contract o ran cydymffurfiaeth â gofynion yr iaith Gymraeg.

Gwasanaeth Wyneb yn Wyneb – nifer a % y swyddi mewn derbynfeydd, yn y ganolfan gyswllt neu siopau un stop a ddynodwyd fel rhai lle mae'r Gymraeg yn hanfodol, a % y swyddi hynny a lenwyd gan aelod o staff dwyieithog:

Derbynfeydd - 6 swydd lle mae'r Gymraeg yn hanfodol. 67% o'r swyddi hynny wedi'u llenwi gan staff dwyieithog.

Canolfannau Cyswllt - 7.5 swydd lle mae'r Gymraeg yn hanfodol. 100% o'r swyddi hynny wedi'u llenwi gan staff dwyieithog.

AD & Sgiliau –

1. Nifer a % y staff (rhugl a dysgwyr) a dderbyniodd hyfforddiant yn y Gymraeg ar gyfer cymhwyster penodedig: -

12 (0.6%) aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant Cymraeg ar gyfer cymhwyster penodedig yn ystod y flwyddyn.

AD & Sgiliau-

2. Nifer a % o staff a dderbyniodd hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith:-

55 (3%) aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith fel rhan o'r cwrs Cyfarch undydd.

Atodiad 1

Cynllun Gweithredu 2015-2016

Adran	Cam(au) Gweithredu	Dyddiad Target	Cam(au) Gweithredu a Gymerwyd
2	Darparu Gwasanaeth		
	Cynnal adolygiad o gapasiti dwyieithrwydd systemau TG cyfredol	Ebrill - Rhagfyr 2016	Creu canllawiau gyda phwyntiau i staff eu hystyried wrth ddatblygu neu brynu meddalwedd newydd. Gohiriwyd adolygiad o'r holl systemau oherwydd dyddiadau diweddu'r cytundebau lefel gwasanaeth a'r angen i ddod i ben â'r cytundebau cyfredol gyda'r cyrff blaenorol.
3	Llunio Polisiâu		
	Hyfforddiant ar gyfer staff sy'n ynghlwm â phenderfyniadau llunio polisi	Ionawr 2017	Cynhaliwyd trafodaethau gyda darparwr a fydd yn cynnal cwrs ar gyfer staff sy'n ymwneud â phenderfyniadau polisi pan fydd y Safonau'n hysbys i'n sefydliad

	Strategaeth Sgiliau Dwyieithog ac amserlen i'w gweithredu ynghyd ag adrannau 3.3, 3.4 a 3.5 o'n Cynllun	O Ebrill 2013	Esboniwyd ar dudalen 15 yr adroddiad am y gwaith a wnaed hyd yn hyn.
4	Gweithrediadau		
	Parhau â rhaglen ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg a threfnu cyrsiau Cyfarch ar gyfer staff sydd heb unrhyw sgiliau Cymraeg Trefnu cyrsiau Gloywi Iaith ar gyfer siaradwyr Cymraeg rhugl sy'n dymuno datblygu'u sgiliau ysgrifenedig	Yn parhau	55 aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth fel rhan o gwrs undydd Cyfarch. Trefnir mwy o hyfforddiant yn ystod 2016/17 er mwyn dangos cwrteisi ieithyddol sylfaenol Mynychodd 10 aelod o staff y cwrs Gloywi Iaith. Trefnir mwy o hyfforddiant yn ystod 2016/17 er mwyn helpu i leihau'r ddibyniaeth ar y tîm Cyfieithu
5	Hyrwyddo'r Gymraeg		
	Codi ymwybyddiaeth o'r Cynllun a'r canllawiau a'r Rhaglen Hyfforddiant Cymraeg	Yn parhau	Codi ymwybyddiaeth o'r Cynllun ar y Fewnrwyd, yng Nghylchlythyr Misol y Rheolwyr a Yammer. Pob aelod newydd o staff yn derbyn copi o'r Cynllun Iaith Gymraeg a Chanllawiau Hyfforddiant Cymraeg
	Cynyddu'r cyfle i'n staff weithio'n ddwyieithog	Yn parhau	Esbonnir am y gwaith a wnaed hyd yn hyn ar dudalen 13 – 17 yr adroddiad.
6	Monitro a Chadw Cofnodion		
	Cofnodi ac adrodd ar gydymffurfiaeth â'r mesur yn y Cynllun Iaith Gymraeg	O Ebrill 2013	Adrodd ar gydymffurfiaeth wedi'i gynnwys yn ein Hadroddiad Monitro Blynyddol 2015/16.
	Adroddiad Blynyddol i'r Uwch Dîm Rheoli a Chomisiynydd y Gymraeg	Mehafin 2016	Adroddiad i'w gyhoeddi Gorffennaf 2016

Atodiad 2

Gallu Iaith Gymraeg, yn ôl Cyfarwyddiaeth (Adran/uned)

	Ni chafwyd ymateb	Lefel 0	Lefel 1	Lefel 2	Lefel 3	Lefel 4	Lefel 5
	512 (24.4%)	68 (4.5%)	625 (41.6%)	348 (23.2%)	93 (6.2%)	163 (10.9%)	205 (13.6%)
Swyddfa'r Prif Weithredwr	0	0	0	0	0	1 (50%)	1 (50%)
Gwasanaethau Cyllid a Chorfforaethol	52 (2.6%)	13 (8.1%)	59 (36.6%)	37 (23%)	6 (3.7%)	19 (11.8%)	27 (16.8%)
Llywodraethiant	6 (0.3%)	2 (5.6%)	17 (47.25%)	4 (11.1%)	2 (5.6%)	5 (13.9%)	6 (16.7%)
Cyfathrebu	8 (0.4%)	2 (15.4%)	0	2 (15.4%)	1 (7.7%)	0	8 (61.5%)
Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio	77 (3.8%)	9 (4.3%)	90 (42.7%)	56 (26.5%)	22 (10.4%)	18 (8.5%)	16 (7.6%)
Gwasanaethau Cenedlaethol	92 (4.6%)	10 (4.2%)	101 (42.1%)	58 (24.2%)	1 (5.4%)	28 (11.7%)	30 (12.55)
Datblygu Sefydliadol a Rheoli Pobl	2 (0.1%)	-	13 (56.5%)	2 (8.7%)	1 (4.3%)	3 (13%)	4 (17.4%)
Gweithrediadau - Gogledd a Chanolbarth Cymru	143 (7.1%)	4 (1.1%)	95 (27%)	83 (23.6%)	33 (9.4%)	53 (15.1%)	84 (23.95%)
Gweithrediadau – De Cymru	131 (6.5%)	27 (6.0%)	241 (53.8%)	105 (23.4%)	13 (2.9%)	33 (7.4%)	29 (6.5%)
Trawsnewid	1 (0.05%)	1 (6.3%)	9 (56.3%)	1 (6.3%)	2 (12.5%)	3 (18.8%)	-

Gallu Iaith Gymraeg, yn ôl gradd swydd

Gradd	Ni chafwyd ymateb	Lefel 0	Lefel 1	Lefel 2	Lefel 3	Lefel 4	Lefel 5
A1	6 (1.2%)	1 (1.5%)	2 (0.3%)	-	-	-	2 (1.0%)
B1	22 (4.3%)	1 (1.5%)	4 (0.6%)	5 (1.4%)	-	2 (1.2%)	2 (1.0%)
B2:EOA:A	85 (16.6%)	9 (13.2%)	73 (11.7%)	34 (9.8%)	12 (12.9%)	32 (19.6%)	32 (15.6%)
B3:B3W:PB6a PB6aOp:W3 W4:Gradd 3	82 (16%)	23 (33.8%)	52 (8.3%)	34 (9.8%)	7 (7.5%)	19 (11.7%)	36 (17.6%)
C1:C1W:AS4 PB5:PB5Op B:W2:Gradd 4	141 (27.5%)	12 (17.6%)	176 (28.2%)	122 (35.1%)	29 (31.2%)	61 (37.4%)	58 (28.3%)
C2:C:W1:	35	4	37	36	13	10	20

Gradd 5	(6.8%)	(5.9%)	(5.9%)	(10.3%)	(14%)	(6.1%)	(9.8%)
C3:PB4	76 (14.8)	8 (11.8%)	162 (25.9%)	74 (21.3%)	16 (17.2%)	20 (12.3%)	27 (13.2%)
D1:D	31 (6.1%)	1 (1.5%)	30 (4.8%)	13 (3.7%)	9 (9.7%)	6 (3.7%)	8 (3.9%)
D2:PB3: Gradd 9	19 (3.7%)	5 (7.4%)	49 (7.8%)	15 (4.3%)	6 (6.5%)	8 (4.9%)	8 (3.9%)
D3:E:PB2	6 (1.2%)	-	6 (1.0%)	-	-	-	4 (2%)
E1:E2:PB1	4 (0.8%)	2 (2.9%)	29 (4.6%)	13 (3.7%)	1 (1.1%)	3 (1.8%)	4 (2%)
CX:F1:F2	-	1 (1.5%)	5 (0.8%)	1 (0.3%)	-	1 (0.6%)	2 (1%)
Spot	5 (1%)	1 (1.5%)	-	1 (0.3%)	-	1 (0.6%)	2 (1%)

Gallu Iaith Gymraeg (o fewn swyddfa/canolfan)

	Ni chafwyd ymateb	Lefel 0	Lefel 1	Lefel 2	Lefel 3	Lefel 4	Lefel 5
Aberystwyth	24 (1.2%)	2 (2.2%)	24 (27%)	27 (30.3%)	10 (11.2%)	15 (16.9%)	11 (12.4%)
Bwcle	25 (1.2%)	-	42 (50.6%)	20 (24.1%)	7 (8.4%)	4 (4.8%)	10 (12%)
Llwyn Brain Bangor	33 (1.6%)	1 (0.8%)	20 (15.7%)	21 (16.5%)	16 (12.6%)	24 (18.9%)	45 (35.4%)
Llys Afon	19 (0.9%)	3 (7.1%)	22 (52.4%)	11 (26.2%)	3 (7.1%)	1 (2.4%)	2 (4.8%)
Maes Newydd	36 (1.8%)	4 (3.3%)	63 (52.1%)	34 (28.1%)	3 (2.5%)	11 (9.1%)	6 (5%)
Maes Y Ffynnon	51 (2.5%)	1 (0.5%)	46 (25.3%)	45 (24.7%)	17 (9.3%)	33 (18.1%)	40 (22%)
Plas yr Afon	20 (1.0%)	8 (4.7%)	103 (60.6%)	46 (27.1%)	3 (1.8%)	4 (2.4%)	6 (3.5%)
Tŷ Cambria	66 (3.3%)	22 (8.7%)	140 (55.1%)	46 (18.1%)	8 (3.1%)	19 (7.5%)	19 (7.5%)

Cyhoeddwyd gan:
Cyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria
29 Heol Casnewydd
Caerdydd
CF24 0TP

0300 065 3000 (Llun-Gwener, 8:00-6:00)

[ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:yholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

© Cyfoeth Naturiol Cymru

Cedwir pob hawl. Caniateir i'r ddogfen hon gael ei hatgynhyrchu gyda chaniatâd ymlaen
llaw Cyfoeth Naturiol Cymru



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales